Llwyddiant regata Mari Davies

Llwyddodd Mari Davies o Fethesda, un o sêr ifanc Clwb Hwylio Pwllheli i ennill y deitl o Bencampwraig Ifanc Genedlaethol yn dilyn pum diwrnod o rasio yn Weymouth a Portland.

Wrth hwylio gyda'i phartner Sarah Norbury, llwyddodd y ddwy i gadw'u safle fel y goreuon o griw'r merched drwy gydol y regata.
Cymrodd bron i 400 o hwylwyr ran yn y digwyddiad ar draws y wlad.

Eleni mae Mari, sy'n aelod o'r clwb lleol, wedi cael ei dewis i gynrychioli'r DU fel rhan o dîm o ddeuddeg ym Mhencampwriaethau Hwylio Ieuenctid y Byd yr ISAF ym Mhortiwgal.

Yn ôl Mari 'Mi fydd hi'n anrhydedd i gael cynrychioli 'ngwlad ym Mhencampwriaeth yr ISAF yng Ngorffennaf'

Bydd mwy o wybodaeth am y digwyddiad ar gael…

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Mai 13, 2014**

Cynllun Hyfforddai Twristiaeth Awyr Agored

Cawsom newyddion da iawn fis yma wrth glywed bod Fraser Jenkins, un o'n hyfforddeion, wedi gadael y cynllun i gael swydd newydd. Mae wedi derbyn cyflogaeth yn Academi Bear Grylls ym Mhen Llŷn. Fel rhan o'i waith bydd Fraser yn dysgu Sgiliau Awyr Agored i bobl ifanc mewn un o sefydliadau awyr agored newydd yng Ngogledd Cymru.
Cyn iddo'n gadael ni, cafodd Fraser y cyfle i ennill ei gymhwyster SPA a'i wobr Arweinydd Mynydd. Byddem yn parhau i'w gefnogi a dymunwn yn dda iddo yn ei yrfa newydd.

Yn y cyfamser, mae Mel, Jo a Dylan wedi cwblhau'u gwobr 3* canŵ a bellach yn gweithio tuag at eu gwobr 3* caiac. Yn dilyn hyn, byddent yn gweithio tuag at eu Gwobr Lefel 2 mewn hyfforddi chwaraeon padlo….

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Mai 13, 2014**

Gwirfoddolwr y Mis ar gyfer Mawrth ac Ebrill

Mis yma, teithiodd ein cydlynydd gwirfoddoli i Gaergybi i gyflwyno gwobr Gwirfoddolwr y Mis i ddau aelod teilwng o Glwb Cadetiaid Môr Caergybi. Cyflwynwyd Sue Williams a

Digwyddiadau

- Gwobr 4* Ceufad môr (Mentora)
  Mai 16, 2014
- Cwrs Cymorth cyntaf REC (Achub...
  Mai 24, 2014
- Penwythnos Gwych o Badlo i'r...
  Mai 31, 2014
- Mordwyaeth Arfordirol a Chynllunio Llanw...
  Mehefin 1, 2014
- Cwrs Caiacio - Sgiliau Hanfodol...
  Mehefin 7, 2014
- Gwobrau Cerdded (Mentora) Rf:2
  Mehefin 18, 2014
- Cwrs Cymorth cyntaf REC (Achub...
  Gorffennaf 5, 2014

Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth. ›

Dewi Thomas gyda'u gwobrau haeddiannol (tocyn £40 i'w wario yn Surf-lines; byff, crys t a phlac llechen y Bartneriaeth Awyr Agored).

Arweinwyr gwirfoddol i Gadetiaid Môr Caergybi, Traeth Newry, yw Sue a Dewi. Maent wedi gwneud gwaith dylanwadol iawn wrth ddatblygu'r cadetiaid dros y blynyddoedd ac wedi bod yn weithredol iawn yn y gwaith o ail ddatblygu safle'r cadetiaid i fod yn gyfleuster modern a moethus. Mae Sue a Dewi wedi cydweithio'n agos â'r Bartneriaeth Awyr Agored a Swyddog Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored...

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Mai 9, 2014**

Dilynwch ni ar Twitter!

Yn ddiweddar, crëwyd cyfrif Twitter y Bartneriaeth Awyr Agored.

Mae'r cyfrif hwn wedi'i gysylltu â thudalen Facebook y Bartneriaeth yn y gobaith o ledu'n cynulleidfa a lledaenu'n negeseuon ar draws y rhwydwaith.

Oes gan eich clwb chi dudalen Twitter? Cofiwch roi tag arnom mewn unrhyw un o'ch gweithgareddau @PAA_TOP er mwyn i ni hyrwyddo gweithgareddau awyr agored ar draws yr ardal.

Chwiliwch am y Bartneriaeth Awyr agored i'n dilyn ni neu dilynwch y ddolen yma i fynd yn syth at ein proffil

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Mai 9, 2014**

Penwythnos Gwych o Badlo i'r Teulu - Gŵyl Chwaraeon Padlo Mawddach

Bellach yn ei phedwaredd flwyddyn ar Aber y Fawddach ynghanol mynyddoedd hyfryd De Eryri.

Penwythnos yr 31ain o Fai / 1af o Fehefin 2014

Prif Ddigwyddiadau:

10km- esgyniad llanw a phadlo dan arweiniad 20km- Her yr Aber 10km Ras Canŵ Agored a nifer o ddigwyddiadau eraill i'r teulu gyfan. "Cymrwch Ran" a phadlo dan oruchwyliaeth Digwyddiadau llawn hwyl, arddangosiadau, wal ddringo, gŵyl barcud traeth, a barbeciw trwy'r dydd.Manylion llawn ar www.paddlewales.com gyda'r diweddaraf ar

Twitter "@paddlewales"

Digwyddiad i'r Dyddiadur.

Wedi'i drefnu gan glwb rotari Mawddach ar y cyd a Chanŵ Cymru. Bydd yr elw yn mynd tuag at Tŷ Gobaith- yr hosbis i blant, ac achosion da…

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Ebrill 8, 2014**

Sesiwn ceufadu am DDIM i bysgotwyr

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn cynnig cyfle gwych i bysgotwyr gael mynychu cwrs Caiacio - Sgiliau Hanfodol i Bysgotwyr sy'n cael ei redeg gan Surf-Lines. Bydd y cwrs yma am ddim, ac yn cael ei gynnal ar y 7fed o Fehefin.

Mae pysgota o geufad yn gamp sy'n datblygu'n gyflym iawn ac yn galluogi'r pysgotwyr gael mynediad i lefydd a fyddai fel arfer yn anghyraeddadwy. Yn ogystal â hyn, mae'n gamp heriol ac ymrwymedig iawn ac felly mae angen y sgiliau a dealltwriaeth o'r amgylchedd arfordirol. Mae bod yn ddiogel ar geufad yn elfen hanfodol o'r gamp.

Yn dilyn poblogrwydd dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi datblygu'r cwrs cyffrous yma ar gyfer 2014. Byddem yn datblygu'ch sgiliau…

Mwy ›
Ysgrifennwyd ar **Mawrth 28, 2014**

Y Bartneriaeth Awyr Agored, Bwthyn Carnedd, Plas y Brenin, **Capel Curig** Conwy, LL24 0ET. Tel: 01690 720106
info@outdoorpartnership.co.uk
www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk